**Teitl y swydd:** **Swyddog y Wasg a Chyfathrebu, Cymru (Rhaid eu bod yn gallu siarad Cymraeg)**

**Lleoliad:** **Mae'r swyddfa yng Nghaerdydd ac mae hyblygrwydd i weithio o bell/a byddwn yn ystyried yn y cartref**

**Yn atebol i'r:** **Rheolwr Polisi, Materion Cyhoeddus ac Ymgyrchoedd, Cymru**

**Math o Waith:** **Parhaol, 21 awr yr wythnos**

## Cyflwyniad i sglerosis ymledol ac MS Society

Mae gan dros 130,000 ohonom yn y DU sglerosis ymledol (MS). Mae'n anodd ei ragweld ac yn wahanol i bawb. Mae'n aml yn boenus ac yn eich blino, ac mae'n gallu achosi problemau o ran sut rydyn ni'n cerdded, yn symud, yn gweld, yn meddwl ac yn teimlo. Mae'n gallu ei gwneud yn anodd i ni weithio, a gwneud y pethau rydyn ni'n eu mwynhau. Ond does dim rhaid iddi fod fel hyn.

MS Society ydym ni – cymuned o bobl sy'n byw gydag MS, gwyddonwyr, ymgyrchwyr, gwirfoddolwyr a rhai sy'n codi arian. Rydyn ni'n deall sut beth yw byw gydag MS, ac rydyn ni'n cefnogi ein gilydd drwy'r cyfnodau da a'r cyfnodau gwael a phopeth yn y canol. Ac rydyn ni'n sbarduno ymchwil i greu mwy o driniaethau – a thriniaethau gwell – i bawb. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n ddigon cryf i roi stop ar MS.

## Pwrpas y Rôl

Codi ymwybyddiaeth o waith MS Society a chynyddu ei phroffil drwy hyrwyddo'n gweithgareddau drwy'r sianeli cyfryngau a chyfathrebu priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg (cyfryngau cymdeithasol, y wefan a chysylltiadau digidol), yn enwedig cynyddu cyrhaeddiad ymgyrchoedd, gweithgareddau codi arian a gwasanaethau.

Cyfrannu at y gwaith cyffredinol o roi amcanion MS Society Cymru ar waith.

## Perthnasoedd Allweddol:

Mewnol
Mae deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r canlynol:

- Cyfarwyddwr Gwlad, Cymru
- Cydweithwyr yn MS Society Cymru
- Cydweithwyr yn y Wasg, Cysylltiadau Cyhoeddus, Cyfathrebu a Digidol ar draws MS Society

- Penaethiaid adrannau, rheolwyr a staff ar draws MS Society, yn benodol: Codi Arian, Ymchwil, Cysylltiadau Digidol a Gwasanaethau
- Grwpiau MS Lleol yng Nghymru

Allanol
Mae deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r canlynol:
- Swyddogion y wasg a staff cyfathrebu mewn elusennau eraill sy'n cefnogi pobl sydd â chyflyrau hirdymor (e.e. ar fentrau ar y cyd fel Wythnos Gofalwyr)
- Cysylltiadau yn y wasg mewn cyfryngau lleol a chenedlaethol
- Pobl sy'n byw ag MS

**Prif Gyfrifoldebau:**

Bydd ein Swyddog y Wasg a Chyfathrebu'n cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth Marchnata a Chyfathrebu MS Society i gyflawni nodau strategol MS Society drwy wneud y canlynol:

1. **Rhoi cynllun busnes ar waith**

   **1a)** Hyrwyddo gwaith MS Society gyda phwyslais arbennig ar gefnogi gweithgareddau codi arian, ymgyrchu a gwasanaethau

   **1b)** Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu ein darpariaeth cyfathrebu digidol yng Nghymru

   **1c)** Rheoli ymholiadau gan y cyfryngau a chynnal enw da'r elusen

   **1d)** Helpu i ddatblygu cronfa ddata o astudiaethau achos MS Society

   **1e)** Monitro a dosbarthu sylw i MS Society yn y wasg a sylw arall yn y cyfryngau sy'n ymwneud â gwaith yr elusen

2. **Monitro ac adrodd ar berfformiad**

**1a Hyrwyddo gwaith MS Society gyda phwyslais arbennig ar gefnogi gweithgareddau codi arian, ymgyrchu a gwasanaethau (30%)**

- Gweithio gyda chydweithwyr i lunio a chyflwyno strategaethau cyfryngau i hyrwyddo gwaith MS Society Cymru ac MS Society yn ehangach.
- Gweithio'n benodol gyda chydweithwyr i lunio a chyflwyno strategaethau cyfryngau i gefnogi rhaglenni rhagweithiol i godi arian a chodi proffil.
- Darparu copi ysgrifenedig Cymraeg a Saesneg o ansawdd uchel ar gyfer cyhoeddiadau mewnol ac allanol gan gynnwys datganiadau i'r wasg, erthyglau a chopi ar gyfer y we.
- Ysgrifennu datganiadau i'r wasg am straeon cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am MS Society i hyrwyddo ein gwaith.

- Gweithio gyda chydweithwyr yn MS Society Cymru ac MS Society yn ehangach i hyrwyddo digwyddiadau, mentrau codi arian cymunedol, a gwasanaethau MS Society sy'n cael eu darparu yng Nghymru, gan gynnwys gwerthu straeon cadarnhaol am gyfranogwyr a gwirfoddolwyr MS Society i gyfryngau priodol.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn swyddi Codi Arian i hyrwyddo partneriaethau corfforaethol, gan gynnwys cynrychioli MS Society mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid corfforaethol presennol a darpar bartneriaid corfforaethol pan fo angen.

**1b. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ein darpariaeth cyfathrebu digidol yng Nghymru (35%)**

- Cynnal sianeli cyfryngau cymdeithasol MS Cymru gan sicrhau presenoldeb cryf a chynrychioladol yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Archwilio a threialu dulliau newydd o gyfathrebu digidol e.e. fideo, animeiddio.
- Cynnal tudalennau Cymru ar y wefan.
- Cynhyrchu Cylchlythyr Cymru.

**1c Rheoli ymholiadau gan y cyfryngau a chynnal enw da'r elusen (20%)**

- Delio â cheisiadau am gyfweliadau gan y cyfryngau, dewis a briffio llefarwyr priodol, a nodi llefarwyr mewnol ac allanol allweddol sy'n gallu siarad ar ran MS Society.
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau'r wasg i MS Society (Cymru) yn ystod oriau gwaith. Ymateb i ymholiadau'r wasg gan ddefnyddio'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda thîm y wasg a'r rheolwr llinell ledled y DU, mewn pryd i gwrdd â therfynau amser y wasg a chynnal enw da MS Society am hyrwyddo gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cynrychioli MS Society mewn modd proffesiynol mewn digwyddiadau mewnol ac allanol.
- Hyrwyddo brand, gwerthoedd a gweledigaeth gorfforaethol yr elusen.

**1d Helpu i ddatblygu cronfa ddata astudiaethau achos MS Society (5%)**

- Helpu i ddatblygu a chynnal cronfa ddata astudiaethau achos MS Society, gan gynnwys cyfweld pobl y mae MS yn effeithio arnynt ar gyfer astudiaethau achos.
- Datblygu astudiaethau achos i'w defnyddio i gefnogi cysylltiadau â'r cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus, cymorth i godi arian a rhannau eraill o'r sefydliad.

**1e Monitro a dosbarthu sylw i MS Society yn y wasg a sylw arall yn y cyfryngau sy'n ymwneud â gwaith yr elusen (5%)**

- Monitro'r sylw a roddir i straeon sy'n ymwneud ag MS yn y wasg a dosbarthu deunydd y wasg i staff a gwirfoddolwyr o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt, mewn partneriaeth â chydweithwyr yn swyddfa'r wasg.
- Cynnal rhestr cysylltiadau cyfryngau cyfredol yn y cyfryngau Cymraeg a Saesneg yng Nghymru.
- Monitro cyfleoedd i gael cyswllt â'r cyfryngau a chefnogi rhaglen gyswllt ragweithiol y tîm Polisi a Chyfathrebu ar gyfer y cyfryngau.
- Parhau i fod yn ymwybodol o sianeli cyfryngau allweddol ar gyfer MS Society, gan dynnu sylw at slotiau rheolaidd a manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi.

**2. Monitro ac Adrodd ar Berfformiad 5%**

- Monitro gwybodaeth am berfformiad yn erbyn amcanion, canlyniadau a dangosyddion perfformiad allweddol.
- Cymryd camau unioni yn brydlon pan fo angen.
- Cyfrannu at fesur effaith gwaith y timau yn unol â fframwaith canlyniadau MS Society.

**Cyffredinol**

- Cydymffurfio â gweithdrefnau llywodraethu MS Society, polisïau a gweithdrefnau MS Society.
- Cyfrannu at amgylchedd gwaith cadarnhaol sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn galluogi staff i wneud eu gorau.
- Cyfrannu at waith y tîm ehangach.
- Yn gyfrifol am ddefnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau eraill yn effeithiol.

**Dyletswyddau Eraill**

- Bod yn barod i deithio i gyfarfodydd ledled Cymru a'r DU, a bod oddi cartref dros nos, yn unol â gofynion rhesymol y swydd.
- Ymgymryd ag unrhyw waith arall y gellid ei ddisgwyl gan Swyddog y Wasg a Chyfathrebu.

**Manyleb y Person**

**Cymwysterau**

Hanfodol

- Safon Uwch/cymhwyster cyfatebol; neu
- Profiad proffesiynol perthnasol, sy'n dangos sgiliau academaidd cyfatebol
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus

Dymunol

- Cymhwyster proffesiynol mewn Cysylltiadau Cyhoeddus (wedi ymgysylltu â CIPR)

**Profiad**

Hanfodol

- Profiad o weithio mewn swyddfa'r wasg, Cysylltiadau Cyhoeddus, cyfathrebu neu newyddiaduraeth

- Profiad o gyfathrebu digidol a chyfryngau cymdeithasol

Dymunol

- Profiad o'r sector elusennau a/neu iechyd a gofal cymdeithasol
- Profiad o hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau codi arian
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr
- Profiad o weithio'n hyblyg, gan gynnwys ymateb i faterion yn ymwneud â'r cyfryngau y tu allan i oriau swyddfa arferol pan fo angen

**Gwybodaeth a sgiliau**

Hanfodol

- Siarad Cymraeg yn rhugl
- Gwiriad DBS lefel safonol
- Gwybodaeth ymarferol am y cyfryngau yng Nghymru a'r DU
- Ymrwymiad amlwg i waith tîm cydweithredol
- Ymrwymiad amlwg i weithio'n gynhwysol, gan sicrhau cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, ac yn gallu dylanwadu/perswadio/gweithio gydag aelodau o'r cyhoedd a chydweithwyr ar bob lefel
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac ar bapur, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn amrywiaeth eang o gyfryngau ac amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd
- Sgiliau trefnu a rheoli llwyth gwaith da, ac yn gallu gweithio o fewn amserlenni tynn ac o dan bwysau
- Sgiliau TG rhagorol, yn enwedig MS Word, Outlook ac Excel

**Telerau'r gwaith**

**Gradd: D1**

**Llofnodwyd gan ddeilydd y swydd Dyddiad**

**Llofnodwyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Dyddiad**

## Cymwyseddau Craidd MS Society

### Mehefin 2020

| Cymhwysedd | Disgrifydd: ymddygiadau y gellir arsylwi arnynt | Yn gysylltiedig â gwerthoedd BEAT |
|---|---|---|
| **Yn meithrin cyd-gynhyrchu** | **Gweithredu gyda'r Gymuned MS ac ar ei chyfer, gan geisio arbenigedd pobl sy'n byw gydag MS i gydgynhyrchu gwasanaethau a datrysiadau.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn cefnogi unigolion i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Gymuned MS, gan rannu eu profiad eu hunain ac enghreifftiau o wneud hynny.** | **Gyda'n gilydd**<br><br>**Arbenigwr** |
| **Yn agored i newid ac arloesi** | **Herio'r sefyllfa bresennol i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o weithio, gan addasu ac ymateb i newid a dysgu o fethiant.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn cefnogi ac ysgogi'r tîm i roi cynnig ar bethau newydd, gan fynd ati i arloesi sy'n arwain at ganlyniadau sefydliadol gwell, a rhannu gwersi o fethiannau.** | **Bod yn feiddgar**<br><br>**Uchelgeisiol** |
| **Penderfyniadau cadarn** | **Gwneud penderfyniadau amserol gyda gwybodaeth briodol, gan gydbwyso tystiolaeth a gwybodaeth ag asesiad risg a chamau gweithredu priodol.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn gwneud penderfyniadau clir, tryloyw ac amserol ac** | **Uchelgeisiol**<br><br>**Arbenigwr** |

| | | |
|---|---|---|
| | **yn gweithredu arnynt, hyd yn oed mewn amgylchiadau heriol, gan annog deialog gadarn ynghylch rhagdybiaethau a chanlyniadau.** | |
| **Cydweithio** | **Buddsoddi amser ac egni i sefydlu ymddiriedaeth a meithrin perthynas waith gadarnhaol gydag unigolion a thimau ar draws y sefydliad.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn galluogi dysgu a gweithio fel tîm, gan gefnogi gwaith timau eraill a chreu cyfleoedd ar gyfer gweithio ar draws y sefydliad.** | **Gyda'n gilydd** |
| **Cyfathrebu Effeithiol** | **Dangos sgiliau gwrando ymarferol a chyfathrebu'n glir ac yn gryno mewn amrywiaeth o fformatau, gan deilwra negeseuon i gynulleidfaoedd fel y bo'n briodol.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn ymgysylltu â'r tîm drwy ofyn am adborth, gwrando ac ymateb i safbwyntiau gwahanol, gan sicrhau bod pawb yn glir ynghylch negeseuon allweddol, disgwyliadau rôl a nodau'r sefydliad.** | **Gyda'n gilydd**<br><br>**Arbenigwr** |
| **Canolbwyntio ar ganlyniadau** | **Canolbwyntio ar effaith a'r blaenoriaethau, yr adnoddau a'r elfennau i'w cyflawni sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn canolbwyntio ar ganlyniadau llwyddiannus yn hytrach na'r oriau a weithir, gan rymuso ac ymddiried mewn pobl i fod yn gyfrifol ac yn atebol am eu gwaith.** | **Bod yn feiddgar**<br><br>**Gyda'n gilydd** |
| **Cynhwysedd** | **Trin pobl yn deg ac yn barchus waeth beth fo'u cefndir, eu rôl neu eu statws, gan geisio deall ac ymgorffori gwahanol werthoedd a safbwyntiau mewn penderfyniadau a gwaith.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn hyrwyddo diwylliant cynhwysol sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r hyn y mae pob unigolyn yn ei gynnig i'r tîm, gan sicrhau y caiff addasiadau rhesymol eu rhoi ar waith i gefnogi hyn.** | **Gyda'n gilydd** |

| | | |
|---|---|---|
| **Atebolrwydd** | **Cymryd cyfrifoldeb am waith a gweithredoedd personol; cyflawni ymrwymiadau, nodi lle mae gwaith ar ei hôl hi a lle mae angen help, a chydnabod camgymeriadau a dysgu ohonynt.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn gosod ac yn cyfleu disgwyliadau clir ar gyfer eu hunain ac eraill, yn codi eu llais ac yn herio'n briodol pan nad yw pethau'n gweithio ac yn mynd i'r afael â phroblemau'n gyflym ac yn dryloyw.** | **Bod yn feiddgar**<br>**Arbenigwr**<br>**Uchelgeisiol**<br>**Gyda'n gilydd** |
| **Arbenigwr ar Dechnoleg** | **Yn croesawu atebion technoleg sy'n newid yn gyflym, ac yn deall sut mae technoleg yn gwella'r gwaith o gyflawni nodau ac yn sbarduno effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.**<br><br>**Fel rheolwr tîm, yn creu cyfleoedd i archwilio a dysgu am yr amgylchedd technoleg sy'n newid, rhoi'r hyn a ddysgir ar waith a hyrwyddo arloesedd digidol.** | **Bod yn feiddgar**<br>**Uchelgeisiol** |